Annwyl Gwsmer

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

**Swyddfa Bost Aberpennar**
**56 – 58 Stryd Rhydychen, Aberpennar, CF45 3HB**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau ein bod, wedi cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynllun i symud y Swyddfa Bost uchod i Nisa – Siop Aberpennar, 25b – 26b Stryd Rhydychen, Aberpennar, CF45 3PG, lle caiff ei rhedeg fel un o'n canghennau lleol eu natur gan bartner manwerth.

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr yn well a chafodd y sylwadau eu hystyried, ynghyd â'r holl ffactorau perthnasol eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad. Cafodd crynodeb o'r adborth ei amgáu, ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n rhoi manylion pellach am y gangen newydd.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rydym yn ffyddiog o hyd y bydd cynllun a lleoliad y gangen newydd yn dal i ateb gofynion y cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, yn ogystal â diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 13:00 ddydd Mawrth 7 Rhagfyr 2021, a bydd y gangen newydd yn agor yn Nisa – Siop Aberpennar, 25b - 26b Stryd Rhydychen, am 13:00 ddydd Mercher 8 Rhagfyr 2021.

Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am ddwy gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Aberdâr, 28 Stryd Whitcombe, Aberdâr, CF44 7AU
- Swyddfa Bost Glenboi, Ystad Fernhill, Aberpennar, CF45 3EW

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa'r Post yn: postofficeviews.co.uk

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud ag ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Darpariaeth y Rhwydwaith**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

postoffice.co.uk

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk.
FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

## Atodiad A

## Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

**Dechreuodd yr ymgynghoriad** 14 Mai 2021
**Daeth yr ymgynghoriad i ben** 25 Mehefin 2021

**Ymatebion o'r ymgynghoriad**

- Cafwyd 79 ymateb gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol

**Y prif faterion a godwyd**

- Pellter, Llwybr, Lleoliad
- Parcio a Thagfeydd Trafnidiaeth
- Mynediad, yr Adeilad a'r Lle y Tu Mewn
- Diogelwch a Phreifatrwydd
- Hyfforddi Staff a'r Gwasanaeth i Gwsmeriaid
- Cadw Pellter Cymdeithasol
- Peiriant ATM

### Ymateb i'r materion a godwyd

**Pellter, Llwybr, Lleoliad**
Mae'r adeilad newydd tua 120 metr o'r gangen bresennol. Gydag unrhyw symud, mae'n anorfod y bydd yn haws i rai cwsmeriaid gyrraedd y lleoliad newydd; yn anffodus, bydd eraill yn gorfod teithio ymhellach. O ran cerdded i'r lleoliad newydd, mae yna balmentydd ag ymylon isel ac mewn cyflwr da , ar hyd y ffordd o'r safle presennol.

**Parcio a Thagfeydd Trafnidiaeth**
I gwsmeriaid sy'n defnyddio'u trafnidiaeth eu hunain, mae Maes Parcio Aberpennar o fewn 90 metr i'r adeilad arfaethedig ac mae llefydd penodol i bobl ag anableddau.

Mae parcio yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Er bod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig, mae arolwg pellach o'r sefyllfa wedi cadarnhau fod sawl maes parcio arall yng nghyffiniau'r adeilad newydd.

**Mynediad, yr Adeilad a'r Lle y Tu Mewn**
Mae'r mynediad yn y lleoliad newydd yn wastad gyda drws llydan wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i gynnal gwasanaeth Swyddfa'r Post ochr yn ochr â'r gwasanaeth manwerth. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi a ffitiadau'n cael eu symud neu eu cymryd oddi yno er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw rwystr wrth fynd i mewn i'r adeilad, bod y fynedfa, y llwybrau siopa a'r man ciwio yn ddirwystr a bod digon o le i gwsmeriaid a chadair olwyn symud o gwmpas heb anhawster.

**Diogelwch a Phreifatrwydd**
Er bod y fformat lleol yn ffordd wahanol o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post, nid yw mewn unrhyw fodd yn amharu ar y gwasanaeth proffesiynol rydym yn ei ddarparu yn ein holl ganghennau. Byddwn hefyd yn cydweithio'n glos â'r gweithredydd newydd i wneud yn siŵr fod yna ddigon o breifatrwydd i gwsmeriaid Swyddfa'r Post. Er enghraifft, rydym yn trafod materion fel cynllun y ciw a gofyn i gwsmeriaid aros i ffwrdd o'r cownter wrth aros eu tro am wasanaeth a chyflwyno anfoneb sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol â'i hwyneb tuag i lawr. Mae ystafell cynllun-agored yn tueddu i wneud i bobl siarad yn dawelach am nad oes raid iddyn nhw godi eu lleisiau er mwyn cael eu clywed.

**Hyfforddi Staff a'r Gwasanaeth i Gwsmeriaid**
Mae safon yr hyfforddiant i'r staff yr un mor uchel ag yw yn ein holl ganghennau. Bydd hyn yn cynnwys cydnabod yr angen i barchu cyfrinachedd cwsmeriaid a glynu wrth ein camau diogelwch llym er mwyn diogelu staff a chwsmeriaid. Hefyd, bydd unrhyw staff a fydd yn ymwneud â thrafodion Swyddfa'r Post wedi cael eu hyfforddi ynghylch sut i gydymffurfio mewn sawl maes, gan gynnwys Diogelu Data a Thrafod Post.

Ar sail y gofynion presennol a'r hyn a ragwelir ar gyfer y dyfodol, bydd dau fan gwasanaeth wrth gownter y siop. Yn dilyn y symud, bydd y Swyddfa Bost ar agor ar ddydd Sul, a bydd yna oriau agor estynedig o ddydd Llun i dydd Sadwrn, a fydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gwsmeriaid. Byddwn yn dal i gadw llygad ar y galw a'r defnydd o'r gangen newydd yn dilyn y symud er mwyn wneud yn siŵr fod safonau'r gwasanaeth yn cael eu cadw

**Cadw Pellter Cymdeithasol**
Ar hyn o bryd mae yna argyfwng iechyd cyhoeddus yn y DG oherwydd y pandemig COVID-19 ac felly mae'n hanfodol ein bod fel busnes yn cymryd amryw gamau i gadw pawb yn ddiogel. Gallaf eich sicrhau y bu Swyddfa'r Post Cyf. Yn gweithio'n galed i ddilyn canllawiau'r Llywodraeth ac mae canghennau wedi derbyn Cyfarpar Diogelu Personol sydd eu hangen i wneud canghennau'n ddiogel i gwsmeriaid a staff. Bydd Swyddfa'r Post Cyf. Yn dal i weithio'n ddiogel yn ystod y pandemig hwn, gan wneud yn siŵr fod pobl sy'n ymweld a'n canghennau yn cydymffurfio â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol.

Mae gwasanaeth y Swyddfeydd Post yn cael ei gyfrif yn wasanaeth hollbwysig sydd yn darparu gwasanaeth unigryw ar gyfer amrediad o weithgareddau hanfodol ac rydym yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ynghylch cadw pellter cymdeithasol er diogelwch ein staff a chwsmeriaid. Wrth i'r sefyllfa newid, rydym yn dal i ddiweddaru staff a chwsmeriaid â chyfarwyddiadau ymarferol er mwyn iddynt allu cadw'n ddiogel wrth ateb gofynion eu cymunedau. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau tra'n cadw ei cydweithwyr a chwsmeriaid yn diogel.

Rydym yn ffyddiog fod ein Postfeistri a'u staff yn gweithredu yn unol â'r cyngor swyddogol ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw ein canghennau ar agor ac yn ddiogel.

**Peiriant ATM**
Er na fydd peiriant arian allanol Swyddfa'r Post yn cael ei drosglwyddo i'r safle newydd, bydd cwsmeriaid yn dal i allu codi arian o'u Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post a chael gwasanaethau bancio bob dydd yn y Swyddfa Bost drwy gydol yr oriau agor estynedig, sef 09:00 – 19:30 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a 10:00 – 19:30 ar y Sul.

Gall unrhyw gwsmer sydd am ddefnyddio cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post y tu allan i'r oriau hyn ddefnyddio peiriant arian allanol Swyddfa'r Post yn Swyddfa Bost Cwm-bach, tua 2.7 milltir i ffwrdd. Mae modd cyrraedd trwy ddefnyddio gwasanaeth bws rheolaidd.

## Atodiad B

## Taflen Wybodaeth Swyddfa Bost Aberpennar

**Nisa**
**Siop Aberpennar**
**25b-26b Stryd Rhydychen**
**Aberpennar**
**CF45 3PG**

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun - Sad | 09:00 - 19:30 |
| Sul | 10:00 - 19:30 |

**Yn ystod y pandemig Coronafeirws mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor y gangen.**

**Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**Cynhyrchion a Gwasanaethau**
Bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.

**Mannau gwasanaeth**
Bydd dau fan gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gael wrth gownter y siop.

**Mynediad**
Mae'r mynediad i'r adeilad newydd yn wastad ac mae drws llydan wrth y fynedfa.
Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Bydd y gangen newydd tua 120 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae modd parcio am ddim ym Maes Parcio Aberpennar, sydd tua 90 metr o'r adeilad newydd.
Mae yna sawl maes parcio arall hefyd yng nghyffiniau'r adeilad newydd.

**Y Siop**
Siop Gyfleustra

**Dyddiad y symud**
Dydd Mercher 8 Rhagfyr 2021 am 1300

| Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost Aberpennar | |
|---|---|
| **I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44. Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost.** | |
| | **Y gangen newydd** |
| **Post** | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Special Delivery | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ |
| Parseli Express a chontract | ✓ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed) | ✓ |
| Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio personol a busnes: Y cyfan o ran codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ |
| Talu biliau (cerdyn, cod bar neu â llaw) | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ |
| **Gyrru** | |
| Treth y car | ✓ |
| **Trwyddedau** | |
| Trwyddedau pysgota â gwialen | ✓ |
| **Teithio** | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ |
| Atgyfeirio Yswiriant Teithio | ✓ |
| Yswiriant Teithio ar gais | × |
| Gwirio ac Anfon Pasbort | × |
| | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ |
| **Talu â siec** | ✓ |

Mae'r cynhyrchion a nodir gan × ar gael yn Swyddfa Bost **Aberdâr**, 28 Stryd Whitcombe, Aberdâr, CF44 7AU

Oriau agor:
Llun–Gwen 09:00 – 13:00 & 14:00 – 17:30
Sad 09:00 – 14:00

Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost **Glenboi** , Ystâd Fernhill, Aberpennar, CF45 3EW

Oriau agor:
Llun–Gwen 08:00 – 20:00
Sad 10:00 – 18:30
Sul 10:00 – 16:00

# <u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Caiff yr egwyddorion a ganlyn eu mabwysiadu wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **<u>Ymgynghori</u>** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn penderfynu am:

- Cau cangen Swyddfa'r Post[1] yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd)

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[2] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol[3], Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[4] am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Gofynnir i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw bwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn iddi.

Croesawn bob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

**Cytunwyd yr Egwyddorion hyn gyda Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu am y cwyn).

**postofficeviews.co.uk** **comments@postoffice.co.uk** **FREEPOST Your Comments**
**Ffôn: 03452 66 01 15** **Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, pan nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.
[2] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni ddechreuwn ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
[3] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.
[4] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 3 a 4 uchod i rannu pob gwybodaeth a grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.